# O.M.EDWARDS A CHYFRES Y FIL

Gan STAN WICKLEN

Y DIWEDDAR Athro R. T. Jenkins a sylwodd ar ddylanwad Ruskin a William Morris ar O. M. Edwards a John Morris Jones. Cyfeiriodd at eu syniadau nhw ar argraffu Cymreig.

> **'Mae'r safon newydd o argraffu a welir yng nghyfrolau Owen Edwards, J. Morris Jones, John Rhys a Gwenogvryn Evans, yn dyst i'r bri a roes John Ruskin a William Morris ar y celfyddydau cain gan gynnwys argraffu.'**

Yr oedd O.M.E. o dan ddylanwad Ruskin a William Morris, yr artistiaid enwog. Yr olaf yn arbennig am ei waith o fewn maes llyfrau wrth sefydlu ei wasg breifat, y Kelmscott Press, lle argraffwyd y *Chaucer* goludog gydag addurniadau hardd ar bren. Gyda llaw 'roedd William Morris o waedoliaeth Gymreig fel y dywedodd ef ei hun.

Arwr arall O.M.E. oedd bardd y cywydd, Dafydd ap Gwilym, a naturiol felly oedd i Edwards ddewis ei waith i'w gyhoeddi. Ymdrechodd i ddilyn syniadau William Morris o lyfr mawr wedi ei addurno, h.y. *'de luxe edition'*, ond yn anffodus 'roedd y gwaith yn gostus iawn i'w baratoi.

Cysodwyd y gyfrol ac argraffwyd y proflenni yn swyddfa fechan (ar y pryd) R. E. Jones a'i Feibion yn Stryd Rosehill, Conwy, lle 'roedd siop gwerthu llyfrau a mân bethau ac argraffty yn y cefn lle gweithiwyd gyda'r peiriannau.

Yn 1900 y bu hyn ac yr oedd Mr William Jones, perchennog yr argraffty, yn awyddus i symud ei wasg i'r adeilad coch newydd ar y cei yng Nghonwy. Gofynnodd i O.M.E. beth oedd am wneud gyda chyfrol drwchus Dafydd ap Gwilym a oedd yn barod i'w rhwymo yn ei swyddfa. Er mwyn gorffen y gwaith yn briodol buasai raid ei rhwymo â lledr — peth drud iawn ar gyfer llyfr mawr.

Methodd Edwards â wynebu'r gost a chwalwyd ei gynllun o gyhoeddi cyfrol fawr Dafydd ap Gwilym. Trodd O.M.E. at y syniad o lyfrau bach i'r boced a daeth cynllun *Cyfres y Fil* i fod.

* * * *

AR DDALENNAU ei fisolyn *Cymru* amlinellodd O.M.E. ei gynllun a'i ddibenion ar gyfer *Cyfres y Fil*:

> **Bwriedir cyhoeddi cyfres o lyfrau yn cynnwys pigion llenyddiaeth Cymraeg i danysgrifwyr. Bydd yn y gyfres waith y beirdd a'r llenorion mwyaf adnabyddus er y gall fod eu gwaith wedi ei gyhoeddi o'r blaen. Bydd hefyd waith sydd eto heb ei gyhoeddi erioed, neu sydd o gyrraedd un o bob mil heddyw. Cyhoeddir dim llai na dwy, dim mwy na phedair cyfrol bob blwyddyn. Bydd pob cyfrol yn cynnwys 112 tudalennau a darluniau, wedi ei rhwymo mewn lliain cryf, gydag ymyl uchaf y llyfr yn oreuredig. Y pris i danysgrifwyr yn swllt y gyfrol a chost y cludiad. Disgwylir tâl ymlaen (4/6) am y flwyddyn neu 1/1½ ar dderbyn pob cyfrol. Pris cyfrolau unigol, neu gyfrol trwy lyfrwerthwr fydd 1/6 yr un.'**

Dyma oedd cynllun gwreiddiol O.M.E. ar gyfer y gyfres o gyfrolau bach a gyhoeddwyd ac a argraffwyd gan R. E. Jones a'i Feibion, Conwy, rhwng y blynyddoedd 1901-16 dros 'Ab Owen, Cyhoeddwr, Llanuwchllyn, Y Bala, Gogledd Cymru.

Hysbysodd O.M.E. ddarllenwyr *Cymru* (Medi 1901): 'Y mae gwaith *Dafydd ap Gwilym* wedi ei gyhoeddi, yn gyfrol fechan dlos, mewn lliain cryf ac ymyl uchaf y llyfr yn oreuredig'. Yr oedd copi *'de luxe edition'* y *Dafydd ap Gwilym* a gollwyd yn ddefnyddiol tros ben i'r ffformat fechan *Cyfres y Fil* a gysodwyd ar frys.

Dyddiad y Rhagair yw 'Llanuwchllyn, Awst 21ain, 1901' ac ar gael i danysgrifwyr y mis canlynol. Addurnwyd gan *'line-drawings'* gan Winefred Hartley ac hefyd *'half-tones'* o luniau megis *Dafydd ap Gwilym* (gan Dyer Davies) a *Herwyr yn Mynd i Ryfel* (A. E. Elias). Gwerthwyd dros fil o gopïau o'r gyfol gyntaf.

Dilynwyd gan gyfrolau am *Goronwy Owen* a *Cheiriog*. Daeth Goronwy Owen yn y pendraw yn ddwy gyfrol wedi ei haddurno gan arlunydd oedd a'i deulu yn gyfeillion i Goronwy yn y gorffennol, sef S. Maurice Jones, Mochdre, Bae Colwyn, aelod o'r *Cambrian Academy of Art*, Conwy a adnabu Ruskin a Holman Hunt yr artist enwog. Aeth S. Maurice Jones ymlaen i addurno nifer o deitlau *Cyfres y Fil*.

Bob mis yn *Cymru* adroddodd Edwards am dyfiant *Y Fil* — araf iawn fu yr ymaelodi ac erbyn Chwefror 1902 dywedodd: 'Gwelir nad yw hanner *Y Fil* wedi dod'. Yn Ebrill yr un flwyddyn mae tinc o anobaith pan ddywed:

> **'pe buaswn wr dieithr, ac heb wybod am Gymru buaswn yn suddo i anobaith yn rhoddi'm gwaith newydd i fyny, ac ymfudo i'r Amerig. Ond gwn yn well. Yr wyf yn mentro ymlaen, gwn na bydd un o'r mil ar ôl. Yr wyf wedi codi pedwar cant o bunnau o'r Banc, ac yn gwario ar y cyfrolau newydd. Nis gallaf fforddio eu colli fy hun, gwn y dont yn ôl bob swllt a cheiniog a dimai.'**

Gwers ffydd o'r gorffennol i gyhoeddwyr Cymru heddiw!

* * * *

O DAN gynllun O.M.E. awgrymodd argraffu dipyn dros fil o gopïau o bob teitl er mwyn cadw copi ar gyfer pob aelod o'r Fil pan ymunent. Y copïau sbâr i werthu i'r cyhoedd yn gyffredinol i wneud elw. Syniad da mewn theori ond mewn gwirionedd cadwyd stoc enfawr o *Gyfres y Fil* heb eu gwerthu. Rhwng 1901 a 1916 argraffwyd a chyhoeddwyd 38 o deitlau o *Gyfres y Fil* dros O.M.E. a'r unig deitlau a werthwyd allan yn llwyr oedd *Dafydd ap Gwilym* (1901) a *Ceiriog* (1902).

Anturiaeth i ddechrau clwb llyfrau ar gyfer y werin oedd gan O.M.E. mewn golwg, ond yn ôl ffeithiau economeg y byd cyhoeddi llyfrau Cymraeg hollol aflwyddiannus fu y fenter. Ffydd yn y gwladgarwyr at y 'pethe' oedd hwb ac ysbrydiaeth Edwards yn ei ymdrechion llenyddol o gyhoeddi llyfrau.

Gwnaeth O.M.E. gyfraniad gwerthfawr i argraffyddiaeth *(typography)* llyfrau Cymraeg ar drothwy yr ugeinfed ganrif.

Gyda chynnwys y cyfrolau bychan a'r cyhoeddwr dyma feirniadaeth y diweddar Saunders Lewis arnynt:

> **'Ab Owen, Llanuwchllyn, oedd y cwmni cyhoeddi mwyaf diddorol ac anturus yng Nghymru yn ei ddydd. Hyd yn oed heddiw y mae *Cyfres y Fil* yn rhes o lyfrau tlysion, deniadol, ac yn werthfawr, rai ohonynt yn anhepgor a safonol, i bob efrydydd ar lenyddiaeth Gymraeg.'**

**RHESTR O *GYFRES Y FIL***

**Dafydd ap Gwilym, 1901**
**Goronwy Owen, Cyf. I, 1902**
**Ceiriog, 1902**
**Goronwy Owen, Cyf. II, 1902**
**Huw Morus, 1902**
**Beirdd y Berwyn, 1903**
**Ap Vychan, 1903**
**Islwyn, 1903**
**Gwaith Owen Gruffydd, 1904**
**Robert Owen, Abermaw, 1904**
**Gwaith Edward Morus, 1904**
**John Thomas, 1905**
**Glan y Gors, 1905**
**Gwilym Marles, 1905**
**Ann Griffiths, 1905**
**Eben Fardd, 1906**
**Gwaith Samuel Roberts (SR), 1906**
**Dewi Wyn (di-ddyddiad) (1907)**
**Gwaith Joshua Thomas, 1907**
**Yr Hen Ficer, 1908**
**Ieuan Glan Geirionnydd, 1908**
**Alun, 1909**
**Twm o Nant, Cyf. I, 1910**
**Twm o Nant, Cyf. II, 1910**
**Yr Hwiangerddi, 1910**
**Beirdd y Bala, 1911**
**Gwilym Hiraethog, 1911**
**Y Diarhebion, Cyf. I, 1912**
**Y Diarhebion, Cyf. II, 1912**
**Edward Richard a Ieuan Brydydd Hir, 1912**
**Y Diarhebion, 1912 (III)**
**Caledfryn, 1913**
**Iolo Morganwg, 1913**
**Mynyddog, Cyf. I, 1914**
**Mynyddog Cyf. II, 1914**
**Sion Cent, 1914**
**Iolo Goch, 1914**
**Emrys, 1916**

# CANFOD COPI ARALL O DESTAMENT SALESBURY

Gan W. ALUN MATHIAS

UN DIWRNOD ar faes y Brifwyl yng Nghwm Rhymni eleni, wrth grwydro o stondin i stondin, dyma daro ar stondin y Cristadelffiaid. Sylwi ar yr enw a osodwyd uwchben y mynediad, sef 'Papell y Beibl', ac i mewn â mi.

Fel y gellid disgwyl, yr oedd yno bamffledi a llyfrynnau yn ymwneud â sect y Cristadelffiaid, ond yr hyn a aeth â'm bryd i yn llwyr y diwrnod hwnnw oedd yr arddangosfa fechan, ddethol, a oedd yn darlunio hanes cyfieithu'r ysgrythurau i'r Gymraeg.

Ar y byrddau o gwmpas y stondin roedd yna gasgliad eithriadol o werthfawr o Feiblau a Thestamentau Cymraeg ynghyd â nodiadau eglurhaol yn esbonio lle a phwysigrwydd y gwahanol gyfrolau yn hanes cyfieithu'r ysgrythurau.

Ychydig wythnosau cyn yr Eisteddfod yr oeddwn wedi bod wrthi'n ddyfal yn llunio rhestr o'r holl gopïau a oedd ar glawr o'r argraffiad cyntaf o Destament William Salesbury, 1567. Argraffwyd y rhestr yn rhifyn mis Awst diwethaf o'r *Casglwr*.

Wn i ddim a fedr y darllenydd ddychmygu'r cyffro pleserus a deimlais o ganfod fod yn yr arddangosfa hon gopi o Destament gwreiddiol Salesbury — a hwnnw'n gopi nad oeddwn yn gwybod am ei fodolaeth hyd y foment honno.

Bûm am hir yn syllu arno ac ar y ddau drysor arall a oedd wedi eu gosod wrth ei ochr, sef Beibl yr Esgob Morgan a Beibl yr Esgob Parry.

* * * *

CEFAIS ar ddeall mai o gasgliad un gŵr y daeth yr holl gyfrolau a oedd yn cael eu harddangos. Y gŵr hwnnw oedd Mr Alan Fowler, llawfeddyg orthopaedig o Ben-y-bont ar Ogwr.

Trefnwyd imi i gyfarfod â Mr Fowler, a braint a hyfrydwch oedd cael cyfle i sgwrsio ag ef a chlywed am ei sêl o blaid lledaenu gwybodaeth am yr efengyl ac am ei ddiddordeb dwfn yn hanes cyfieithu'r ysgrythurau i'r Gymraeg.

Rhaid bellach ychwanegu copi Mr Fowler o Destament Salesbury at y rhestr a gyhoeddwyd gennyf yn *Y Casglwr*. Mae hyn yn golygu fod hanner cant union o gopïau yn hysbys i mi erbyn hyn.

Faint rhagor o gopïau, tybed, sydd i'w hychwanegu at y rhestr?